

Cyngor Bro Llanllwni

Adroddiad o gyfarfod 14 Medi 2026.

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion mis Gorfennaf 2026.

Y CAE CHWARAE

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi.

GWEFAN LLANLLWNI

Roedd yr Adroddiad diweddaraf ar y wefan.

AGENDA

Roedd y Clerc wedi rhoi poster yn y Neuadd Gymunedol cyn y cyfarfod ac ar y wefan.

Y CAE CHWARAE

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y Cae Chwarae. Cafwyd cadarnhad gan y Clerc bod y gwaith o gwmpas y fynedfa wedi ei gwblhau.

Nodwyd y byddai'r Clerc yn anfon unwaith eto at y Cyngor Sir ar faterion yn ymwneud â Gwastod Bryn, Hewl Felinfach – Fferm Y Bryn, Pont Llwyn-ann, Pen Hewl Bryn-ceirch i gyfeiriad Llandysul, Hewl Llwyn-pur, Hewl Plas-bach, Erwlon–Tro Gwarallt, Siop Llanllwni–Tyngrug.

Cytunwyd y byddai'n fanteisiol i osod bocs hysbysebu yng ngwaelod y pentref. Byddai'r Clerc yn gwneud ymholiadau pellach.

GOLEUADAU STRYD

Nodwyd nad oedd y golau ger 17 Bryndulais wedi ei gywiro..

YSGOL GYNRADD LLANLLWNI

Enwebwyd Hefin Jones yn gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar Gorff Llywodraethol Ysgol Llanllwni.

EGLWYS SANT MIHANGEL, LLANFIHANGEL RHOS Y CORN

Cefnogwyd dychwelyd yr eglwys i Gymuned Llanfiangel Rhos y Corn yn hytrach na'i chau gan Esgobaeth Tyddewi.

Penderfynwyd cefnogi Cerebal Palsy Cymru a'r Angor

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y Cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni nos Lun 9 Tachwedd 2026 am 7.30yh.